Elinor Jones, Tanycastell, Dolwyddelan, 1762–1846
Cristion

Yr oedd Elinor Jones yn fam i dri o fechgyn a ddaeth yn weinidogion Ymneilltuol, dau ohonynt yn enwog iawn, sef John Jones, Tal-y-sarn a David Jones, Treborth. Ganwyd hi yn y Bertheos, Dolwyddelan ym 1762 yn un o naw o blant Richard a Margaret Owen. (Deuai o linach nodedig iawn yn yr ardal ac yr oedd yn or-wyres i Angharad James. Cyfrifid Angharad James yn wraig anghyffredin o alluog. Yr oedd yn gwbl hyddysg mewn Lladin ac yn darllen llyfrau yn yr iaith honno. Byddai'n barddoni gan ddefnyddio'r mesurau caeth a chadwai ei chyfansoddiadau yn y Llyfr Coch. Canai'r delyn yn ddyddiol gan annog ei morwynion i ddawnsio. Ar achlysur ei phriodas â William Prichard yr oedd hi'n ugain oed a'i gŵr yn drigain.)

Magwyd Elinor Jones ar aelwyd Gristnogol a chafodd bob mantais. Priododd â John Jones, Tanycastell, ac yn fuan wedyn gwnaeth broffes gyhoeddus o'i ffydd gan ddechrau cadw dyletswydd deuluol yn ddyddiol yn y cartref. Yn y gwasanaethau syml hyn byddai'n darllen y Beibl ac yn gweddïo gyda'r plant a'r gweision. Yna daeth ei gŵr i gredu, ac wedi iddo ddod yn aelod eglwysig cymerodd ef at y ddyletswydd. Anogwyd y plant i gymryd rhan yn yr addoliad a gynhelid ar yr aelwyd bob bore a nos, gan eu meithrin i ymarfer bywyd crefyddol iach. Yr oedd Elinor yn wraig abl a dawnus a fendithiwyd â chyfansoddiad cryf. Roedd hyn o fantais aruthrol gan iddi gael ei gadael yn weddw ym 1807 a hithau'n gymharol ifanc a chanddi naw o blant i'w magu, yr hynaf yn ddeunaw oed a'r ieuengaf yn ddwy.

Dywedid ei bod yn eithriadol o alluog ac yn meddu ar feddwl craff a deallusrwydd uwch na'r cyffredin. Dysgodd rannau helaeth o'r Beibl ar ei chof ac yr oedd yn gwbl gyfarwydd â chynnwys yr Ysgrythur. Byddai hefyd yn gweddïo'n feunyddiol dros ei theulu ac yn aml byddai'r plant yn ei chlywed yn gweddïo drostynt wrth eu henwau yn ei hystafell. Gadawodd hyn argraff

ddofn ar bob un ohonynt. Y mae un hanes enwog amdani yn gweddïo dros ei mab John pan oedd yn mynd trwy gyfnod o wrthgiliad. Penderfynodd ef fynd hefo llanciau'r ardal i ffair Llanrwst ac ofnai hi y byddai'n syrthio i gyfeddach a phechod. Fe'i rhybuddiodd mewn cariad i geisio osgoi pob gwagedd a themtasiwn. Aeth John i'r ffair a bu ei fam ar bigau'r drain drwy'r dydd. Fe aeth i'w hystafell droeon a chlywai'r merched hi'n gweddïo'n daer ar ran John. Atebwyd ei gweddïau oherwydd dychwelodd adref yn y prynhawn yn welw ei wedd gan ffieiddio ymddygiad gwyllt yr ieuenctid a chan ymdynghedu na fyddai eto'n mynychu'r fath le.

Yr oedd Elinor hefyd yn eithriadol o wybodus a llafar ynghylch materion crefyddol a byddai'n fwy na pharod i fynegi ei barn. Gallai fynegi ei syniadau yn wreiddiol a chymen gan ddefnyddio'i chof ardderchog. Ychydig cyn ei marw dywedodd, Nid oes gennyf fi, fy annwyl blant, ddim gwerth o eiddo bydol i'w adael ar fy ôl i chwi, ond y mae'r Arglwydd yn caniatáu imi yr hyfdra i wneuthur fy ewyllys diweddaf ar drysorau y cyfamod gras, a gadael tangnefedd Duw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall, yn gynhysgaeth i bob un ohonoch. Bu farw'n fuddugoliaethus ar 10 Ionawr 1846 yn 83 oed.